Cadw

# Croeso i Gastell Harlech

Caer arswydus ar safle chwedlonol

## Beth i'w weld yng Nghastell Harlech


1. Rhybudd! Roedd porthcwlisau amddiffynnol a thyllau llofruddio bygythiol ein porthdy yn ddigon i godi braw ar y dewraf.
2. Cewch gipolwg ar foethusrwydd canoloesol o'r twred de-orllewinol. Dringwch o lawr i lawr ac edrych i mewn i ystafelloedd byw y porthdy — ystafelloedd mwyaf moethus y castell ar un adeg. Po uchaf yw'r ystafelloedd, uchaf yw eu statws.
3. Cewch gyffwrdd â'r awyr ar ein rhodfa pen mur. Dilynwch y system unffordd i fwynhau golygfeydd o'r mynyddoedd mawreddog a'r traethau tywodlyd.
4. Crwydrwch i lawr y 'ffordd o'r môr'; enw sy'n ein hatgoffa fod y môr yn nes o lawer at y castell pan godwyd ef.
5. Rhyfeddwch at nerth y gelynion a daflodd y cerrig hyn at Gastell Harlech yn ystod gwarchaeau canoloesol.
6. Cymerwch 'bi-pi'p i fyny twll y toiled ger y tŵr de-orllewinol, a meddwl 'pw-pw'y fyddai'n defnyddio'r tŷ bach yn nhwred y Ward Allanol.
7. Mynedfa/siop.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TREFTADAETH Y BYD · WORLD HERITAGE · PATRIMOINE MONDIAL

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

cadw.llyw.cymru

Harlech Croeso leaflet WELSH v3.indd 1 07/05/2024 16:17